Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Morfa Rhianedd
# Y Caban
# Ffordd Cwm
# Llandudno
# Conwy
# LL30 1EG

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol, ac mae'r lleoliad yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella a/neu mae enghreifftiau o ddiffyg cydymffurfio |
| **Gwael** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau a/neu mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar blant |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ac AGGCC ar gael ar ein gwefannau priodol:
www.estyn.llyw.cymru
www.cssiw.org.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/05/2016**

## Gwybodaeth am y lleoliad

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Morfa Rhianedd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) Cofrestredig | Carole McAdam<br>Gwennan Williams-Griffiths |
| Unigolyn Cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Dd/B |
| Person â gofal | Carole McAdam |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Amrediad oedran y plant | 2 – 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir ar gyfer addysg | 8 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 11.15am – 3.00pm |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | Mai 2013 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mehefin 2010 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn: | 8 a 9 Mawrth 2016 |

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Mae Cylch Meithrin Morfa Rhianedd yn gysylltiedig â Mudiad Meithrin ac fe'i rheolir gan bwyllgor gwirfoddol. Mae'r lleoliad yn cael ei redeg o gaban hunangynhwysol, pwrpasol ar dir Ysgol Morfa Rhianedd yng nghanol Llandudno. Mae un plentyn o'r 34 sydd wedi'u cofrestru yn y lleoliad yn dod o gartref Cymraeg ei iaith. Mae'r lleoliad yn derbyn cyllid i ddarparu lleoedd â chymhorthdal drwy Fudiad Meithrin ac mae wedi cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg er Mawrth 2013.

## Crynodeb o'r adroddiad

| Thema | Barn |
|---|---|
| Lles | Da |
| Dysgu | Digonol |
| Gofal a datblygiad | Da |
| Addysgu ac asesu | Digonol |
| Yr amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Digonol |

**Diffyg cydymffurfio**

**Ni amlygwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Gwella cynllunio i sicrhau bod medrau llythrennedd a rhifedd plant yn cael eu datblygu'n gynyddol

A2 Sicrhau bod yr holl blant yn cael eu herio'n briodol, yn enwedig y rhai mwy abl

A3 Sicrhau bod gweithdrefnau hunanarfarnu yn canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau plant a'u bod yn arwain at gynllunio effeithiol ar gyfer gwella

A4 Datblygu rôl y pwyllgor rheoli fel ei fod yn gallu cefnogi gwaith y lleoliad yn fwy effeithiol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu, sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Lles | Da |
|---|---|

Mae bron pob un o'r plant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau priodol ynghylch amrywiaeth o faterion, gan gynnwys sut maent yn treulio'u hamser, beth i'w gael ar gyfer byrbryd ac a hoffent fod y tu mewn neu'r tu allan. Ymgynghorir â'r plant yn aml wrth gynllunio themâu a gweithgareddau. Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad, yn hunangofrestru ac yn setlo'n gymharol hwylus. Chwaraeant gyda hoff eitemau sy'n cael eu rhoi iddynt hyd nes byddant yn teimlo'n ddigon cyfforddus i archwilio'r meysydd dysgu ymhellach. Mae bron pob un o'r plant yn siarad neu'n mynegi eu hunain yn dda. Ymatebant yn Gymraeg pan fyddant yn cael eu hannog â geiriau unigol ac ymatebant yn fwy rhugl yn eu hiaith gyntaf wrth chwarae gyda phlant eraill. Mae plant yn gwybod y bydd rhywun yn gwrando arnynt ac y bydd ymarferwyr yn ymateb, yn ddwyieithog os bydd angen.

Mae gan bron pob un o'r plant ymlyniadau cadarnhaol ag ymarferwyr a gweithwyr allweddol, sy'n hybu eu hunanhyder a'u hunan-barch. Teimlant eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn rhan o gymuned ehangach wrth i ymarferwyr gydnabod eu pen-blwyddi a digwyddiadau arbennig, ac arddangos eu gwaith celf, er enghraifft creu arddangosfeydd ar gyfer dathliadau Dydd Gŵyl Dewi a themâu yn y gorffennol yn ymwneud â 'Phlant y Byd' a Diwali. Caiff yr holl blant eu trin gydag urddas a pharch a theimlant ymdeimlad o berthyn. Er enghraifft, mae peg gan bob plentyn ar gyfer ei gôt, 'blwch eiddo' ar gyfer eitemau sydd angen eu cadw'n ddiogel yn ystod y sesiwn neu y mae angen mynd â nhw adref, a mat bwrdd ar gyfer amser byrbryd.

Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda. Mae moesau da gan y rhan fwyaf o blant, yn enwedig yn ystod byrbryd, a dywedant plîs a diolch, heb fawr o anogaeth gan oedolion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos ystyriaeth addas tuag at deimladau plant eraill; mae ychydig yn dominyddu gweithgareddau, ond maent yn dysgu rheoli eu hymddygiad eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhannu adnoddau, yn aros eu tro ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml i gyflawni tasgau cyffredin pan ofynnir iddynt wneud hynny. Er bod symbyliad da gan y rhan fwyaf o blant wrth chwarae a dysgu, mae ychydig yn symud yn gyflym rhwng gweithgareddau ac yn canolbwyntio am gyfnodau byr yn unig. Maent yn chwarae ochr yn ochr i'w gilydd, ond nid ydynt yn rhyngweithio â'i gilydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos lefelau da o hunan-barch, yn cael hwyl ac yn ymroi i'w dysgu. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at brofiadau newydd, fel defnyddio ysbienddrych i ddod o hyd i anifeiliaid gwyllt sydd wedi'u cuddio yn yr ardal chwarae ac ymatebant yn dda i ganmoliaeth ac anogaeth fynych. Mae llawer ohonynt yn unigolion hyderus ac mae ychydig yn datblygu'n feddylwyr a dysgwyr annibynnol. Mae gan y rhan fwyaf o blant berthynas dda â'i gilydd a'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mwynhau gweithgareddau corfforol, yn llawn cyffro ac egni pan fyddant y tu allan ac yn dechrau deall beth sy'n eu cadw'n iach.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn elwa o dasgu dyddiol rheolaidd, sy'n datblygu ymhellach eu medrau hunanhelpu, gan eu gwneud yn fwyfwy annibynnol gydag amser. Mae

bron pob un o'r plant yn tynnu eu cotiau eu hunain ac yn eu rhoi ar beg, yn hunangofrestru ac yn defnyddio'r toiled ac yn golchi eu dwylo, a glanhau eu dannedd, yn annibynnol.

| Dysgu (yn berthnasol i blant a ariennir yn unig) | Digonol |
|---|---|

Mae llawer o blant hŷn yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu a gwnânt gynnydd priodol o ran eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws llawer o feysydd dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau'n bwrpasol mewn amrywiaeth o gyd-destunau ac yn datblygu medrau a rhinweddau personol ehangach i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd boddhaol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac edrychant ymlaen at gymryd rhan mewn gweithgareddau ac ymuno â phrofiadau newydd.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd priodol. Yn ystod sesiynau grŵp, maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn eu cyflawni'n ofalus. Maent yn dechrau defnyddio ystumiau ac iaith briodol wrth weithio gydag oedolion i fynegi beth hoffent ei wneud yn eu hiaith gartref. Mae gan fwyafrif y plant fedrau gwrando da ac mae bron pob un ohonynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn caneuon dosbarth ac yn mwynhau caneuon sy'n cynnwys symudiadau a gweithrediadau yn arbennig.

Mae lleiafrif o blant yn datblygu dealltwriaeth sylfaenol o'r Gymraeg. Fodd bynnag, dim ond ychydig sy'n sgwrsio'n hyderus yn Gymraeg ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gyfyngedig i eiriau unigol ac ymadroddion syml, er enghraifft wrth enwi lliwiau a mynegi eu teimladau. O ganlyniad, mae sgwrsio yn ystod chwarae mewn Saesneg yn ddieithriad. Heblaw am nifer bach iawn, nid yw plant yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac mae eu geirfa'n gyfyngedig iawn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos diddordeb mewn llyfrau a siaradant ag oedolion am yr hyn sy'n digwydd yn y lluniau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dal offer ysgrifennu'n gywir i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Dewisant ddefnyddio sialc, pensiliau a beiros o faint amrywiol yn hyderus ac mae ychydig ohonynt yn gwneud rhai ymdrechion rhesymol i ysgrifennu eu henw.

Yn ystod gweithgareddau â ffocws sy'n datblygu eu medrau mathemategol, mae mwyafrif o blant yn cyfrif hyd at 10 gwrthrych gyda chywirdeb a hyder cynyddol. Dan arweiniad ymarferwyr, mae llawer o blant yn nodi patrymau a dilyniannau syml. Defnyddiant ystod gyfyngedig o eirfa fathemategol fel "trwm ac ysgafn, bach a mawr" ac maent yn dechrau cyfrif ceiniogau wrth dalu am bethau yn eu siop. Mae ychydig blant yn dechrau adnabod a pharu siapiau dau ddimensiwn ond maent yn ei chael hi'n anodd eu henwi yn Gymraeg. Mae ychydig blant yn dechrau adnabod a pharu rhifau ar ffurf ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae gallu llawer o blant i gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws meysydd dysgu eraill yn gyfyngedig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando ac yn ymateb yn frwdfrydig i ddeunydd sy'n cael ei chwarae ar chwaraewyr CD, ond mae eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gyfyngedig yn gyffredinol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhannu, yn aros eu tro ac yn cydweithio â'i gilydd. Dewisant weithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt a dangosant lefel dda o ymgysylltu a dyfalbarhad. Mae gan lawer o blant fedrau corfforol datblygedig. Dewisant a defnyddiant wahanol frwshys paent gyda rheolaeth dda a defnyddiant amrywiaeth o ddeunyddiau yn eu harddangosfeydd. Mae bron pob un o'r plant yn mwynhau tyfu ffrwythau a llysiau yn yr ardd. Deallant fod ar hadau a phlanhigion angen dŵr i dyfu a chwaraeant ran weithgar wrth gynaeafu a choginio'r cynnyrch. O ganlyniad, mae medrau datrys problemau a dysgu annibynnol llawer o blant yn datblygu'n briodol.

| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
|---|---|

Mae'r holl ymarferwyr yn brofiadol a chymwys iawn ac yn diogelu plant mewn modd cymwys. Rhoddant bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad ar gyfer diogelu a hybu lles plant ar waith yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn mynd rhagddynt i hybu ffordd iach o fyw, gan fynnu bod y plant yn brwsio'u dannedd yn ddyddiol a darparu byrbrydau iach a maethlon. Rhoddant wybod i rieni am fwydlenni wythnosol a dyddiol ac unrhyw fwydydd newydd mae plant yn eu blasu, fel betys gyda macrell a mayonnaise ac amrywiaeth o ffrwythau a llysiau. Mae ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn dda ac mae'r cymarebau staffio uwchlaw'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae ymarferwyr yn cadw cofrestri a chofnodion cywir o ymwelwyr â'r safleoedd, ond nid ydynt bob amser yn cofnodi'n gyson fân ddamweiniau lle na fu niwed sylweddol i blant a digwyddiadau, er enghraifft pan ddaw plant i'r lleoliad ag anafiadau a gawsant eisoes.

Mae ymarferwyr yn gweithredu polisi rheoli ymddygiad y lleoliad yn gyson ond maent yn sensitif i gam datblygu'r plant. Anogant y plant i ddilyn rheolau syml a defnyddio amser cylch yn dda i drafod pwysigrwydd bod yn ffrindiau, beth sy'n deg ac yn annheg, parchu eraill a dangos gofal ac ystyriaeth. Mae ymarferwyr yn parchu teimladau a hawliau unigol y plant a rhoddant gymorth pan fo'i angen i blant, mewn partneriaeth â rhieni, Dechrau'n Deg a Chynllun Cyfeirio Conwy. Mae'r holl bartneriaid yn defnyddio 'llyfrau cyfathrebu' i hysbysu a hybu dull cyson o reoli ymddygiad plant mewn modd cadarnhaol. Mae ymarferwyr yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys chwarae tu allan, i sicrhau bod plant yn weithgar, prysur a bodlon.

Mae ymarferwyr yn adnabod plant unigol yn dda ac yn deall eu hanghenion a'u hoffterau. Maent yn ofalgar, meithringar ac yn ymatebol i anghenion pob plentyn a rhoddant ystyriaeth dda i'r wybodaeth y mae rhieni'n ei rhoi mewn contractau a ffurflenni cofrestru. Darparant brofiadau sy'n briodol i gam datblygu'r plant i'w helpu i symud ymlaen yn eu dysgu. Mae prosesau effeithiol i gefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ymarferwyr yn cynnwys rhieni yn addas wrth gytuno ar gynlluniau ar gyfer dysgu a'r strategaethau i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau hyn bob amser yn cynnwys targedau digonol i fesur effeithiolrwydd y strategaethau a'r gweithgareddau a gynhaliwyd a chynnydd y plant tuag atynt.

| **Addysgu ac asesu (yn berthnasol i blant a ariennir yn unig)** | **Digonol** |
|---|---|

Mae ymarferwyr yn y lleoliad gwaith yn cydweithio'n agos i gynllunio amrywiaeth o weithgareddau dysgu diddorol ac ysgogol i'r plant. Mae trefnu da yn sicrhau bod gan

y lleoliad ddull digynnwrf a chadarnhaol o reoli ymddygiad plant. Mae ymarferwyr wedi datblygu perthynas waith dda gyda'r plant a'i gilydd, sy'n caniatáu i'r plant setlo'n gyflym iawn i weithgareddau a dysgu'n llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn holi'r plant ar ddechrau thema i weld beth yr hoffent ei ddysgu a sicrhau bod eu syniadau wedi'u cynnwys yn y gweithgareddau a gynllunnir. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws pob maes dysgu. Er bod gweithgareddau wedi'u cynllunio yn llwyddo i ennyn diddordeb plant dan do ac yn yr awyr agored, nid yw'r bwriadau dysgu'n cael eu mynegi'n ddigon clir yn y cynllunio. O ganlyniad, nid yw cynlluniau'r ymarferwyr yn adeiladu'n ddigon da ar fedrau blaenorol i sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da tuag at fodloni deilliannau'r Cyfnod Sylfaen.

Mae bron pob un o'r ymarferwyr yn modelu iaith yn dda wrth gyfathrebu â'r plant a defnyddiant dechnegau holi llwyddiannus i ymestyn dysgu. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r Gymraeg yn ddigon cyson gyda'i gilydd. Caiff hyn effaith negyddol ar allu'r lleoliad i gynnig ethos Cymraeg cryf. Caiff plant gyfleoedd priodol i ddatblygu eu hunaniaeth ddiwylliannol, er enghraifft pan fyddant yn coginio bwyd Cymreig traddodiadol ac yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

Mae ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do ac awyr agored mewn modd dychmygus i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd a datblygu eu medrau corfforol a'u medrau cyfathrebu yn effeithiol, yn enwedig yn y gegin fwd. Caiff plant gyfleoedd da i ddysgu am ofalu am bethau byw trwy wylio bwystfilod bach a gofalu am blanhigion yn eu gardd. Mae ymarferwyr yn defnyddio ymwelwyr â'r lleoliad yn briodol i ymestyn profiadau dysgu plant yn dda. Er enghraifft, maent wedi ymweld â'r llyfrgell a siopau lleol, ac mae postmon wedi bod i'r lleoliad i siarad am ei waith. Mae'r lleoliad yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau dysgu buddiol sy'n hybu datblygiad personol plant yn briodol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol.

Caiff plant lawer o gyfleoedd da i ddatblygu dealltwriaeth o wahanol ddiwylliannau. Fe wnaethant fwynhau dysgu am fywyd plant yn Affrica yn arbennig wrth wrando ar 'Syrpréis Handa'. Llwyddodd ymarferwyr i ddatblygu'r ardal chwarae yn dŷ i Handa, a wnaeth alluogi plant i ddysgu am offerynnau cerdd traddodiadol Affrica a sut roedd Handa yn byw.

Mae ymarferwyr yn asesu cynnydd a dysgu plant yn drylwyr ar draws y rhan fwyaf o feysydd dysgu ac maent yn dechrau datblygu proffiliau dysgu syml ar gyfer pob plentyn. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n systematig i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu plant, yn enwedig ym meysydd llythrennedd a rhifedd. Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau addas wrth gynllunio gweithgareddau i'r rhan fwyaf o blant. Fodd bynnag, nid yw plant mwy abl bob amser yn cael eu herio'n ddigon da trwy weithgareddau, sy'n cynnig parhad a dilyniant yn eu dysgu i sicrhau eu bod yn gwneud digon o gynnydd. Mae ymarferwyr yn rhoi gwybod yn briodol i rieni am gyflawniadau, lles a datblygiad plant.

| **Yr amgylchedd** | Da |
|---|---|

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn cael gofal mewn amgylchedd glân a diogel, lle y mae risgiau diangen wedi'u hamlygu a'u dileu, cyhyd â phosibl. Mae arweinwyr

yn mynychu hyfforddiant iechyd a diogelwch ac yn sicrhau bod asesiadau risg priodol o’r safle yn cael eu cwblhau. Caiff gweithdrefnau ymadael mewn argyfwng a thân eu harddangos o gwmpas y caban a chaiff arwyddion eu harddangos mewn lle amlwg i gynorthwyo â dod o hyd i flychau cymorth cyntaf, offer ymladd tân, larymau ac allanfeydd.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y safle wedi’i gynnal a chadw’n dda a bod pob plentyn yn cael gofal mewn amgylchedd cyfforddus, symbylol a phriodol i blant, sy’n addas i’w hanghenion, yn hybu eu datblygiad ac yn creu ymdeimlad o berthyn. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn canolbwyntio ar y plentyn, gydag ardaloedd ar gyfer gweithgareddau tawel ac ymlacio os oes angen. Mae waliau a hysbysfyrddau yn arddangos samplau o ddysgu’r plant a darparant wybodaeth ddefnyddiol i rieni. Mae ardaloedd dysgu yn gynhwysol, gyda chyfleusterau sy’n ymestyn lles y plant. Mae’r amgylchedd yn hybu annibyniaeth plant trwy eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn hawdd, neu gyda chyn lleied o gymorth â phosibl. Mae arweinwyr wedi llwyddo i sicrhau cyllid i ddatblygu’r ardal awyr agored.

Mae’r holl blant yn gallu manteisio ar ystod eang o adnoddau chwarae a dysgu dan do a’r tu allan, sy’n cael eu monitro’n ofalus gan ymarferwyr sy’n cymryd cyfrifoldeb am ardaloedd dysgu unigol. Mae adnoddau yn briodol a symbylol, yn hybu datblygiad plant ac yn caniatáu iddynt ymhél â’u diddordebau. Mae’r adnoddau o ansawdd da iawn ac mae digon ohonynt ar gael i sicrhau bod yr holl blant yn cael dewis ac amrywiaeth. Mae adnoddau, teganau ac arddangosiadau yn adlewyrchu cymdeithas ehangach ac yn hybu cydraddoldeb, a chrëwyd ardal chwarae rôl ‘saffari’ llawn dychymyg i gyflwyno delweddau cadarnhaol o fywyd plentyn o Affrica.

| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol** |
|---|---|

Mae arweinydd y lleoliad a’i thîm yn cefnogi ac yn gofalu am bob plentyn fel eu bod yn teimlo’n ddiogel ac yn cael eu gwerthfawrogi. Mae hi’n sicrhau bod ymarferwyr yn cydweithio’n dda i gynnig darpariaeth addas. Mae’r arweinydd yn rhoi arweiniad clir i staff ac mae pawb yn gyfarwydd â’u cyfrifoldebau, gweithdrefnau sefydledig a’u rôl yn y lleoliad. Mae gan y lleoliad berthynas gadarnhaol â rhieni a gofalwyr ac maent yn gwerthfawrogi’r gwasanaeth yn fawr. Mae’r arweinydd yn sicrhau bod y lleoliad yn cydymffurfio â’r holl reoliadau perthnasol. Caiff y datganiad o ddiben ei ddiweddaru’n rheolaidd ac mae’n rhoi cyfrif cywir o’r hyn sydd gan y lleoliad i’w gynnig.

Mae’r arweinydd yn datblygu system werthuso addas sy’n dechrau canolbwyntio ar addysgu a dysgu. Mae hyn yn galluogi’r lleoliad i fyfyrio ar berfformiad staff a chynllunio hyfforddiant a chymorth priodol. Fodd bynnag, nid yw adborth i ymarferwyr wedi’i sefydlu’n ffurfiol eto ac nid yw’n ystyried effaith addysgu ar ddeilliannau plant.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gyfarwydd â’r rhan fwyaf o gryfderau’r lleoliad ac maent yn cydweithredu’n effeithiol i adolygu ei berfformiad a nodi ychydig feysydd i’w gwella. Mae’r wybodaeth a gesglir o’r broses hunanarfarnu yn cael ei defnyddio’n bwrpasol i gynllunio ar gyfer gwelliant. Gydag arweiniad gan athro ymgynghorol yr awdurdod lleol, mae ymarferwyr yn ymatebol iawn i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae hunanarfarnu ac nid yw wedi ysgogi gwelliannau sylweddol yng ngwaith y lleoliad hyd yn hyn. Mae hunanarfarniad y lleoliad yn canolbwyntio’n gryf ar les plant a

darpariaeth, ond nid yw bob amser yn ystyried y safonau y mae plant yn eu cyflawni yn ddigon da, er enghraifft, wrth arfarnu a yw gweithgareddau'n cynnig her gyson i ddisgyblion mwy abl. Mae'r arweinydd yn mynd ati i ofyn barn rhieni a gofalwyr wrth arfarnu gwaith y lleoliad. Mae partneriaethau rhwng y lleoliad, rhieni a'r gymuned leol yn gadarnhaol ac mae hyn yn cyfrannu at naws gymunedol gyffredinol dda yn y lleoliad. Mae'r lleoliad wedi datblygu cysylltiadau agos â'r ysgol fwydo leol, sy'n sicrhau trefniadau effeithiol i blant symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu. Mae'r pwyllgor rheoli gwirfoddol yn cefnogi gwaith y lleoliad yn briodol. Mae gan aelodau unigol wybodaeth dda am waith y lleoliad, mae ganddynt gysylltiad rheolaidd â'r arweinwyr ac maent wedi dechrau herio'r lleoliad fel ffrind beirniadol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith i gefnogi'r gwaith o redeg y lleoliad o ddydd i ddydd, er nad yw'r cofnodion damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau blaenorol bob amser yn cael eu defnyddio'n gyson.

Mae'r lleoliad wedi rhoi ychydig flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ar waith yn briodol. Er enghraifft, mae'n darparu cyfleoedd da i blant ddysgu am fyw'n iach. Fodd bynnag, mae arweinwyr wedi bod yn araf i sicrhau bod y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn cael ei ddatblygu'n effeithiol. Mae'r lleoliad wedi datblygu gweithdrefnau cadarn i sicrhau diogelwch yr holl blant a staff ac mae'n adolygu'r rhain yn rheolaidd.

Mae rhaglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol parhaus, sy'n cael ei darparu'n bennaf gan yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, yn cefnogi ymarferwyr yn dda. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl aelodau staff yn ennill gwybodaeth a medrau newydd yn rheolaidd a'u bod yn gwybod am ddatblygiadau diweddar yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ymarferwyr yn darparu strategaethau priodol i gefnogi unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol a gweithiant yn effeithiol gyda rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i fodloni anghenion yr unigolion hyn.

# Atodiad 1

## Ymatebion i holiaduron i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 11 | 9<br>82% | 2<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 11 | 10<br>91% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| I received information about the setting that enabled me to make an informed choice about whether to use the setting. | 11 | 9<br>82% | 2<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Derbyniais wybodaeth am y lleoliad a wnaeth fy ngalluogi i wneud dewis gwybodus ynghylch p'un ai i ddefnyddio'r lleoliad. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 11 | 11<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child has a keyworker who ensures that his or her needs are met. | 10 | 6<br>60% | 4<br>40% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae gweithiwr allweddol gan fy mhlentyn, sy'n sicrhau bod ei anghenion / ei hanghenion yn cael eu bodloni. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 11 | 10<br>91% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 10 | 8<br>80% | 2<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Care is good. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r gofal yn dda. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 11 | 8<br>73% | 3<br>27% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 11 | 10<br>91% | 1<br>9% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 11 | 7<br>64% | 4<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Cytuno'n gryf<br>Strongly Agree | Cytuno<br>Agree | Anghytuno<br>Disagree | Anghytuno'n gryf<br>Strongly disagree | Ddim yn gwybod<br>Don't know | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| My child is safe at the setting. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 10 | 7 | 3 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 70% | 30% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 10 | 9 | 1 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 11 | 9 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 11 | 7 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 64% | 36% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 9 | 6 | 2 | 1 | 0 | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 67% | 22% | 11% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |
| The setting is well run. | 11 | 10 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 0% | 0% | 0% | 0% | | |

## Atodiad 2

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn ac AGGCC (www.estyn.llyw.cymru) (www.cssiw.org.uk)

## Atodiad 3

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| **Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)** | Mae'r ymadrodd hwn yn cynnwys amrywiaeth eang iawn o anghenion. Defnyddiwn yr ymadrodd anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â phlant sydd ag anghenion yn ychwanegol at anghenion y rhan fwyaf o'r plant eraill yn y lleoliad, am sawl rheswm gwahanol. |
| **Arweinwyr** | Gall hyn gynnwys y Person Cofrestredig, yr Unigolyn Cyfrifol neu'r Person â Gofal<br>• Person Cofrestredig – y person sydd wedi'i gofrestru gan AGGCC i ddarparu'r gwasanaeth. Gall fod yn unigolyn neu'n sefydliad<br>• Unigolyn Cyfrifol – pan fydd y person cofrestredig yn sefydliad, dyma rywun wedi'i enwebu gan y sefydliad hwnnw i weithredu ar ei ran<br>• Person â Gofal – yr unigolyn sydd wedi'i benodi gan y person cofrestredig i fod â gofal llawn am y gwasanaeth o ddydd i ddydd |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Dyma'r cwricwlwm statudol i bob plentyn tair i saith oed yng Nghymru, mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir. |
| **Cyngor Gofal Cymru** | Dyma'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer Gofal Cymdeithasol, y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yng Nghymru |
| **Dechrau'n Deg** | Gwasanaethau sy'n cyflwyno gofal plant rhan-amser, am ddim i blant dwy oed cymwys i helpu i roi'r dechrau gorau iddynt mewn bywyd a'u paratoi ar gyfer yr ysgol. Hefyd, darparant lefelau uwch o gymorth gan ymwelwyr iechyd a rhaglenni rhianta i roi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant ifanc. Mae'r rhaglenni hyn wedi bod ar waith er Ionawr 2007. |
| **Diogelu** | Dyletswydd statudol i gadw plant yn ddiogel a hybu eu lles. |
| **Lleoliadau nas cynhelir a ariennir** | Lleoliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu addysg ran-amser i blant tair a phedair oed. Maent yn cynnwys cylchoedd chwarae, darparwyr gofal dydd preifat ac ysgolion annibynnol. |

| | |
|---|---|
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **System unigolyn allweddol neu weithiwr allweddol** | Dyma ymarferydd sydd wedi'i neilltuo i bob plentyn fel bod rhywun cyfarwydd, dibynadwy ar gael i'r plentyn a bod y plentyn yn teimlo'n ddiogel ac yn gyfforddus. Mae'n meithrin perthynas gadarnhaol ac yn siarad â rhieni yn rheolaidd. |
| **Ymarferwyr** | Pob unigolyn sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant mewn lleoliad. |